OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2002 Rhif 1875 (Cy.184)

CYNLLUNIO GWLAD A THREF, CYMRU

Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Dosbarthiadau Defnydd) (Diwygio) (Cymru) 2002

Wedi'i wneud	- -	*18 Gorffennaf 2002*
Yn dod i rym	- -	*12 Awst 2002*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad Cenedlaethol"), drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 55(2)(f) a 333(7) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990(**1**), ac sydd bellach yn arferadwy gan y Cynulliad Cenedlaethol(**2**), drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Dosbarthiadau Defnydd) (Diwygio) (Cymru) 2002 ac mae'n dod i rym ar 12 Awst 2002.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i Gymru.

Diwygio Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Dosbarthiadau Defnydd) 1987

2.—(1) Mae'r Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Dosbarthiadau Defnydd) 1987(**3**) yn cael ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn Erthygl 3 (dosbarthiadau defnydd) mewnosodwch:

"(7) Where a building or other land is situated in Wales, class B8 (storage or distribution) does not include use of that building or land for the storage of, or as a distribution centre for, radioactive material or radioactive waste.

(8) For the purpose of paragraph (7), "radioactive material" and "radioactive waste" have the meanings assigned to those terms in the Radioactive Substances Act 1993(**4**)."

(**1**) 1990 p.8.
(**2**) Trosglwyddwyd pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau y maent yn arferadwy mewn perthynas â Chymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 iddo.
(**3**) O.S.1987/764. Offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 1991/1567, O.S. 1992/610, O.S. 1992/657, O.S. 1994/724, O.S. 1995/297 ac O.S. 1999/293.
(**4**) 1993 p.12.